John Griffiths AC /AM
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Culture and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JG/0010/14

Syr Deian Hopkin
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

22 Ionawr 2014

Annwyl Deian,

Bydd strategaeth nesaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) ar gyfer 2014-2017 yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiffinio a mynegi cyfeiriad strategol y Llyfrgell dros y tair blynedd nesaf. Mae'r llythyr hwn yn dynodi lefel y cyllid Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y Llyfrgell yn 2014-15 a 2015-16. Rwy'n cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Llyfrgell, ac rwy'n cydnabod y bydd rhaid i'r sefydliad sicrhau yn ystod y misoedd nesaf fod ei adnoddau a'i gyfleusterau wedi'u cysoni i sicrhau fod y gwasanaethau allweddol sy'n llesol i bobl Cymru wedi'u darparu'n llwyddiannus a chynaliadwy, yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth newydd y Llyfrgell.

Rwy'n credu y gall cyrff a noddir megis y Llyfrgell Genedlaethol ddefnyddio eu cryfderau unigol a'u harbenigedd i wneud gwahaniaeth pendant i fywydau pobl ledled Cymru. Mae'n hanfodol fod y sector diwylliannol yn parhau i ddangos ei fod yn berthnasol i'r gwaith o wella bywydau unigolion ar draws Cymru, yn enwedig trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'n cymunedau mwyaf difreintiedig i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi. Rwyf wedi comisiynu'r Farwnes Kay Andrews OBE i wneud adolygiad o sut gellir gwneud hyn yn fwy effeithiol, ac rwy'n annog y Llyfrgell yn gryf i gynorthwyo i ddatblygu ymateb cydgysylltiedig i'r argymhellion a wneir yn adolygiad Kay.

Yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni, mae'n bwysig dros ben bod sefydliadau gwahanol yn cydweithio'n agos i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau, adnoddau ac arbenigedd, ac i ddatblygu syniadau newydd ac arloesol. Mae'n hollbwysig hefyd fod ein cyrff diwylliannol yn parhau i nodi a chael mynediad at amrywiaeth ehangach o ffynonellau ariannu i gydategu'r cyllid Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Hoffwn weld y Llyfrgell yn parhau i ddatblygu ei hymroddiad cryf i weithio mewn partneriaeth; nid yn unig rhwng gwahanol sefydliadau treftadaeth, ond hefyd drwy gefnogi gwaith integredig ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â materion sylfaenol, gwella cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir i bobl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Cymru, a datblygu gwasanaethau ac adnoddau newydd ac arloesol, yn cynnwys partneriaethau cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu elwa ar y gwasanaethau a'r adnoddau gwerthfawr a ddarperir gan ein llyfrgelloedd a'n gwasanaethau archifau, yn cynnwys y Llyfrgell Genedlaethol. Mae gan y Llyfrgell rôl allweddol i'w chwarae o ran gwireddu'r ymrwymiad pwysig hwn, yn enwedig trwy ddatblygu dull strategol o ddarparu gwasanaethau ac adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol yn ddigidol ledled Cymru. Hoffwn i'r Llyfrgell barhau i gefnogi CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru fel un o bartneriaid allweddol CyMAL i ddatblygu a chyflawni polisi ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at weld y Llyfrgell yn adeiladu ar y cyfraniad yr ydych eisoes yn ei wneud i fentrau ehangach yn ymwneud â llyfrgelloedd ac archifau, gan ddefnyddio'r profiad a'r arbenigedd digidol sydd eisoes gennych i gefnogi gwaith ar flaenoriaethau strategol allweddol, yn cynnwys sgiliau digidol ac adnoddau dysgu, cynhwysiant digidol, a'r economi ddigidol.

Mae amddiffyn staff sy'n derbyn y cyflogau isaf yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Hoffwn i'r Llyfrgell barhau i ystyried camau tuag at dalu ei holl staff ar neu'n uwch na'r Cyflog Byw.

Fel y nodwyd yn ei Siarter Frenhinol Atodol yn 2006, amcan y Llyfrgell yw casglu, cadw a chynnig mynediad at bob math o wybodaeth a gofnodwyd, a hynny ar unrhyw ffurf, yn arbennig unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er lles y cyhoedd, gan gynnwys y bobl hynny sy'n ymwneud â gwaith ymchwil a dysgu. A hithau'n un o 6 llyfrgell adnau cyfreithiol sydd yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae gan y Llyfrgell hawl i gasglu copi o'r holl waith printiedig a gyhoeddir yn y DU. Yn ogystal â bod yn gorff sydd â Siarter Frenhinol ac yn Elusen Gofrestredig, mae'r Llyfrgell hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Mae'r Llyfrgell yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r ymrwymiadau a ganlyn yn *y Rhaglen Lywodraethu*:

- Parhau i gynnig mynediad di-dâl i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl
- Datblygu potensial cyfryngau digidol i hybu diwylliant drwy gyfrwng Casgliad y Werin a mentrau eraill ar-lein
- Atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell, amgueddfeydd ac archifau, a sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus

Yn ogystal, mae cysylltiadau clir rhwng gwaith y Llyfrgell ac agenda ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cyfrannu at yr agweddau a ganlyn ar y *Rhaglen Lywodraethu*:

- Diwylliant a Threftadaeth Cymru
- Addysg
- Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru
- Cydraddoldeb
- Trechu Tlodi
- Twf a Swyddi Cynaliadwy

Yn ogystal â'ch gwaith craidd, yn unol â'r hyn a amlinellir yn Siarter Frenhinol y Llyfrgell, a gweithgareddau newydd eraill o dan strategaeth newydd y Llyfrgell ar gyfer 2014-2017, dyma fy mlaenoriaethau ar gyfer y Llyfrgell yn ystod 2014-15:

1. Ehangu mynediad i gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl lle bynnag maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), gan hyrwyddo cyfranogiad ac ennyn eu diddordeb yn niwylliant a threftadaeth Cymru, yn enwedig ymhlith grwpiau cymunedol a lleiafrifol sydd dan anfantais:
   - Ehangu presenoldeb y Llyfrgell ar draws Cymru, a chynyddu cyfranogiad trwy ennyn diddordeb cymunedau lleol mewn gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau ac adfywio cymdeithasol
   - Gosod y defnyddiwr wrth wraidd datblygiadau gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth i ddefnyddwyr newydd a phresennol ar draws Cymru, yn seiliedig ar eu hanghenion;
   - Cefnogi dysgu ffurfiol trwy gyfrannu cynnwys digidol ac adnoddau addysgol o ansawdd uchel, yn Gymraeg a Saesneg, i blatfform Hwb

2. Cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl:
   - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried a chynorthwyo i weithredu canfyddiadau ac argymhellion o adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch cyfraniad fy nghyrff a noddir i agenda blaenoriaeth trechu tlodi Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth greu cysylltiadau agosach gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
   - Darparu cyfleoedd i unigolion gael cyswllt uniongyrchol â chasgliadau cenedlaethol, ac i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol trwy wirfoddoli
   - Nodi dulliau o ganiatáu i weithgareddau'r Llyfrgell Genedlaethol gyfrannu at yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad yr Athro Dai Smith ynghylch y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru
   - Ymchwilio i gyfleoedd i ddangos tystiolaeth o gyfraniad y Llyfrgell at economi Cymru a chynyddu hynny, gan adeiladu ar eich gwaith presennol yn ymwneud â'r diwylliannau creadigol dan eich prosiect *DigiDo* a gyllidir ag arian Ewrop

3. Cydweithio â'r sector llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yng Nghymru, a phartneriaid eraill, i nodi a gweithredu dulliau cynaliadwy a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru:
   - Mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector, datblygu cynlluniau ar gyfer seilwaith cenedlaethol i gefnogi gweithgareddau gwarchod a chadw digidol yng Nghymru, trwy brosiect Gwasanaeth Cadwraeth a Digidol y Llyfrgell
   - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i sefydlu trefniadau i gydleoli Cofnod Henebion Cenedlaethol a gwasanaethau cysylltiedig yn y Llyfrgell. Dylai gynnwys darpariaeth storfa briodol ar gyfer y Cofnod Henebion Cenedlaethol a staff perthnasol cysylltiedig fel rhan o brosiect Datblygiad y Cwrt, yn unol â'r achos busnes cytûn ar gyfer y buddsoddiad o £3.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru.
   - Parhau i gefnogi'r Consortiwm Cadwraeth Ddigidol i wella'r gallu ar draws Cymru i reoli a gwarchod casgliadau digidol
   - Ymgymryd â rôl arweiniol genedlaethol o ran datblygu a rhannu arferion da yn ymwneud â digido
   - Cyfrannu at gyflawni strategaethau *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* ac *Archifau ar gyfer y 21ain Ganrif*, yn unol â'r hyn a gytunir yng nghynlluniau cyflawni'r strategaethau hyn, ac yn unol â chytundebau partneriaeth prosiectau penodol.

- Gweithio gyda phartneriaid ehangach, a chefnogi mentrau digidol eraill i wella mynediad ar-lein at ddeunydd diwylliannol Cymreig (yn cynnwys prosiect *Cynefin* a noddir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri)
- Ystyried sut gall y Llyfrgell Genedlaethol weithredu neu gyfrannu at yr argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan Syr Paul Williams

4. Datblygu proffil y Llyfrgell yn genedlaethol, ar draws y DU ac yn rhyngwladol gan gyfrannu at fentrau cenedlaethol a chefnogi Llywodraeth Cymru yn y gwaith o hyrwyddo Cymru a'n diwylliant a'n treftadaeth i'r byd ehangach trwy weithgareddau megis:
   - Cyfrannu at raglen genedlaethol o weithgareddau i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru
   - Parhau i chwarae rhan arweiniol yn narpariaeth ffederal gwasanaeth treftadaeth ddigidol *Casgliad y Werin Cymru* sy'n cefnogi ymgysylltu digidol â diwylliant a threftadaeth Cymru, cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau digidol, a darparu fforwm cydweithredol ar gyfer mentrau treftadaeth ddigidol genedlaethol
   - Cefnogi partneriaethau tramor strategol Llywodraeth Cymru (e.e. gyda Tsieina)

5. Sicrhau fod y Llyfrgell yn prif ffrydio cynaliadwyedd yn eich cynllunio mewnol eich hun, gan ddefnyddio staff, adnoddau a chyfleusterau yn effeithiol ac effeithlon i ddarparu gwasanaethau allweddol a chyflawni blaenoriaethau strategol:
   - Mynd ati i geisio cyfleoedd i greu incwm, codi arian, a chael mynediad at ffrydiau ariannu mwy amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell
   - Archwilio cyfleoedd i rannu gwasanaethau a gwella cynaliadwyedd trwy gydweithio â sefydliadau eraill

Mae cytundeb cyllido'r Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi ynghyd â'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol pan fydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth grant i'r Llyfrgell fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yw'r isadran sy'n noddi'r Llyfrgell. Darperir cymorth grant i'r Llyfrgell o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manylir ar gymorth grant y Llyfrgell ar gyfer 2014-15 yn y tablau canlynol. Noder mai mynegol yn unig yw'r cyllid ar gyfer 2015-16.

Refeniw

	Cynlluniau 2014-15 £000	Cynlluniau mynegol 2015-16 £000
Costau Rhedeg	10,341	10,141
Derbyniadau Cyfredol	-420	-420
Dibrisiant	1,250	1,250

Cyfalaf

	Cynlluniau 2014-15 £000	Cynlluniau mynegol 2015-16 £000
Cyfalaf	550	550

(gwaelodlin)		
Cyfalaf ychwanegol	375	
Grant Prynu Casgliadau	305	305
Cam 1 Gwasanaeth Cadwraeth a Digidol	3,300	200

Mae Cynllun Gweithredol 2014-15 yn nodi sut byddwch yn cyflawni eich targedau a'ch amcanion. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 am y gofynion ar gyfer Cynllun Gweithredol y Llyfrgell.

Er fy mod yn gwerthfawrogi fod eich cyllideb ar gyfer 2014-15 wedi'i lleihau, hoffwn bwysleisio fod yr agenda cyfartaleddau yn neilltuol o bwysig imi. Gofynnaf felly ichi sicrhau na fydd eich dull o weithredu'r lleihad hwn yn y gyllideb yn effeithio'n anghymesur o negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau cyfartaledd sydd â nodweddion gwarchodedig neu gymunedau dan anfantais ac i sicrhau ei fod yn seiliedig ar asesiadau cadarn o'i effaith ar anghyfartaledd.

Mae cydweithio i ddatblygu atebion a gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl Cymru yn bwysig iawn yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Edrychaf ymlaen at gyfleoedd i glywed rhagor am eich cynnydd â'r blaenoriaethau a nodir yn y llythyr hwn. Hoffwn ddiolch ichi, eich cyd-ymddiriedolwyr a staff y Llyfrgell am eich ymrwymiad parhaus a'ch ymroddiad i gefnogi pobl Cymru i archwilio a datblygu eu cysylltiadau eu hunain â'u diwylliant a'u treftadaeth.

Yn gywir,

John Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Culture and Sport

Atodiad 1

Canllawiau ar y Cynllun Gweithredol

Dylid cyflwyno'r Cynllun Gweithredol drafft i'r isadran sy'n noddi'r Llyfrgell erbyn 31 Ionawr 2014, a hynny i gael trafodaeth yn ei gylch. Dylid anfon y Cynllun Gweithredol at yr isadran sy'n noddi er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol erbyn **31 Mawrth 2014**.

Mae cytundeb cyllido'r Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi amrywiaeth o ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau gan y llywodraeth y mae angen i'r Llyfrgell gydymffurfio â hwy, yn ogystal â'i dyletswyddau a'i chyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

Targedau a blaenoriaethau
Byddwch yn cytuno ar dargedau perfformiad gyda'ch is-adran noddi, a byddant yn cynnwys y targedau craidd a ganlyn, a gaiff eu monitro gan yr Adran Diwylliant a Chwaraeon:

- Nifer yr ymwelwyr ag adeiladau'r llyfrgell
- Nifer y rhith ymweliadau

Caiff cynnydd y Llyfrgell o'i gymharu â'r targedau a'r cerrig milltir a nodir yn ei Gynllun Gweithredol eu monitro mewn cyfarfodydd chwarterol gyda CyMAL, fel yr adran sy'n noddi'r Llyfrgell.

Mae cyflwyno strategaeth newydd y Llyfrgell ar gyfer 2014-2017 yn gyfle addas i adolygu gwybodaeth monitro ac adrodd y Llyfrgell i sicrhau ei fod yn cefnogi ac yn mesur cynnydd yn effeithiol, ac yn monitro gofynion darparu gweithredu. Byddai'r adran sy'n eich noddi yn croesawu trafodaeth ynghylch datblygiad gwybodaeth monitro ac adrodd y Llyfrgell, yn cynnwys dangosyddion perfformiad CAMPUS.

Byddem hefyd yn croesawu eich cyfraniad at drafodaethau ynghylch datblygiad dangosyddion mwy canolbwyntiedig, a mesuriad gwerthuso cyffredin, i adrodd ynghylch cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth gan bobl o deuluoedd incwm isel ac ardaloedd difreintiedig. Bydd y drafodaeth yn ein cynorthwyo i fonitro'n effeithiol y cyfraniadau a wneir at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â threchu tlodi, megis Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a'r adolygiad gan y Farwnes Kay Andrews.

Dylech nodi yn eich Cynllun Gweithredu sut bydd y Llyfrgell yn:

- Cyflawni ac yn gwerthuso rhaglenni gwaith, gan gynnwys dyrannu adnoddau, cerrig milltir, targedau a risgiau
- Gosod targedau ar gyfer creu incwm a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- Cyfrannu at waith cyrff cyhoeddus eraill, a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau allweddol ehangach;
- Cyfathrebu, ymgysylltu a gweithio'n agos â'r Sectorau Gwirfoddol a Phreifat lle bo hynny'n briodol;
- Cefnogi'r gwaith o weithredu polisïau a strategaethau megis Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy;
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd ystyrlon fel rhan o'ch ymgynghoriadau rheolaidd;

- Prif ffrydio datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb, gweithio mewn partneriaeth, hawliau plant, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg i'ch dull o weithredu a chydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol.
- Asesu goblygiadau eich penderfyniadau cyllidol i faterion yn ymwneud â chydraddoldeb trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Dangos eich ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Parhau â'ch ymwneud â Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, gan dargedu gwasanaethau, lle bydd hynny'n briodol, at ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Hoffem weld y gwaith a gynhelir mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn benodol y gwaith a wneir i ddatblygu ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau chwarterol a blynyddol. Drwy gryfhau'r cysylltiadau hyn, rydym am wneud y mwyaf o'r potensial i rannu adnoddau wrth ddarparu'r gwasanaethau er mwyn helpu i leihau'r bylchau rhwng teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a'u cymheiriaid sy'n byw mewn amgylchiadau gwell o ran iechyd, addysg a sgiliau, a chanlyniadau economaidd.